OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 1172

# Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022

## RHAN 1

### Achosion Adennill Meddiant

**Tenantiaethau rhagarweiniol**

**4.**—(1) Er gwaethaf y diwygiadau a wneir gan Reoliadau Canlyniadol 2022, mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 1996 yn parhau i gael effaith, fel yr oeddent yn union cyn y diwrnod penodedig, mewn perthynas â'r materion penodedig—

(a) adran 127(2)(**1**) (achos adennill meddiant), mewn perthynas â hysbysiad a gyflwynwyd i'r tenant yn unol ag adran 128 o Ddeddf 1996 cyn y diwrnod penodedig;

(b) adran 128(1) a (5) (hysbysiad o achos adennill meddiant), mewn perthynas â hysbysiad a gyflwynwyd i'r tenant yn unol ag adran 128 o Ddeddf 1996 cyn y diwrnod penodedig;

(c) adran 129(1) (adolygiad o benderfyniad i geisio adennill meddiant), mewn perthynas â hysbysiad a gyflwynwyd i'r tenant yn unol ag adran 128 o Ddeddf 1996 cyn y diwrnod penodedig;

(d) adran 129(2), (5) a (6), mewn perthynas â hysbysiad a gyflwynwyd i'r tenant yn unol ag adran 128 o Ddeddf 1996 cyn y diwrnod penodedig (pa un a wnaed y cais am adolygiad, neu pa un a gynhaliwyd yr adolygiad, cyn neu ar ôl y diwrnod penodedig);

(e) adran 130(1) i (3)(**2**) (effaith dechrau achos adennill meddiant), mewn perthynas ag achos a gychwynnwyd cyn y diwrnod penodedig ar gyfer adennill meddiant o dŷ annedd a osodwyd o dan denantiaeth ragarweiniol a ddaeth i ben cyn y diwrnod hwnnw yn unol â'r adran honno.

(2) Mae adran 206(1) o Ddeddf 2016 (effaith gorchymyn adennill meddiant) yn gymwys mewn perthynas â gorchymyn adennill meddiant a wnaed gan y llys o dan adran 127 o Ddeddf 1996 ar ôl y diwrnod penodedig (yn rhinwedd arbedion a wneir yn y rheoliad hwn), fel y mae'n gymwys mewn perthynas â gorchymyn adennill meddiant a wnaed o dan Ddeddf 2016.

(3) Er gwaethaf y diwygiadau a wneir gan Reoliadau Canlyniadol 2022, mae adran 127(1) ac (1A) o Ddeddf 1996 yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchymyn adennill meddiant a wnaed gan y llys o dan yr adran honno cyn y diwrnod penodedig.

(4) Er gwaethaf y diwygiadau a wneir gan Reoliadau Canlyniadol Is-ddeddfwriaeth 2022, mae Rheoliadau Tenantiaid Rhagarweiniol (Adolygu) 1997(**3**) yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag adolygiad a gynhelir o dan adran 129 o Ddeddf 1996 yn rhinwedd arbedion a wneir yn y rheoliad hwn (pa un a gynhelir yr adolygiad, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, cyn neu ar ôl y diwrnod penodedig).

(**1**) Diwygiwyd adran 127 gan adrannau 299 a 321 oDdeddf Tai ac Adfywio 2008 (p. 17) a pharagraffau 10 ac 11 o Ran 1 o Atodlen 11 ac Atodlen 16 iddi.
(**2**) Diwygiwyd adran 130 gan adran 299 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (p. 17) a pharagraffau 10 a 12 o Ran 1 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 1997/72.

(5) Mae hysbysiad a gyflwynwyd i'r tenant o dan adran 128 o Ddeddf 1996 cyn y diwrnod penodedig yn peidio â chael effaith (ac ni chaniateir cychwyn unrhyw achosion adennill meddiant newydd gan ddibynnu ar yr hysbysiad)—

(a) ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod penodedig, neu

(b) ar ddiwedd y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau â'r diwrnod a bennir yn yr hysbysiad fel y diwrnod y caniateir dechrau achos ar ei ôl yn unol ag adran 128(4) o Ddeddf 1996,

pa un bynnag yw'r cynharaf.

(6) Mae unrhyw arbedion yn y rheoliad hwn sy'n ymwneud â hysbysiad a gyflwynwyd i'r tenant yn unol ag adran 128 o Ddeddf 1996 cyn y diwrnod penodedig yn cael effaith pa un a gychwynnwyd yr achos cyn neu ar ôl y diwrnod hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 4 mewn grym ar 1.12.2022, gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022, Adran 4.